# POLISI CHWYTHU'R CHWIBAN

## 1. CYFLWYNIAD

1.1. Chwythu'r chwiban yw'r term a ddefnyddir pan fydd gweithiwr yn trosglwyddo pryderon rhesymol a gonest am gamweddau yn y gwaith. Yn aml, gweithwyr yw'r rhai cyntaf i sylweddoli y gallai rhywbeth sylweddol fod o'i le o fewn y Cyngor, a dan y Cod Ymddygiad Gweithwyr, mae gofyn iddynt adrodd am faterion o'r fath. Fodd bynnag, efallai na fyddant yn mynegi eu pryderon oherwydd eu bod yn teimlo y byddai siarad amdanynt yn anffyddlon i'w cydweithwyr neu i'r Cyngor. Gallant hefyd ofni aflonyddu neu erledigaeth.

1.2. Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i'r safonau uchaf posibl o ran bod yn agored, yn gywir ac yn atebol. Yn unol â'r ymrwymiad hwnnw, rydym yn disgwyl i weithwyr a phobl eraill rydym yn ymdrin â nhw y mae ganddynt bryderon sylweddol am unrhyw agwedd ar waith y Cyngor i leisio'r pryderon hynny. Cydnabyddir y bydd rhaid ymdrin â'r rhan fwyaf o achosion yn gyfrinachol.

1.3. Mae'r ddogfen bolisi hon yn ei wneud yn glir y gallwch leisio'ch pryderon heb ofni erledigaeth, gwahaniaethu neu anfantais o ganlyniad. Bwriedir i'r Polisi hwn annog a galluogi gweithwyr i godi pryderon difrifol yn y Cyngor yn hytrach nag anwybyddu problem neu chwythu'r chwiban y tu allan.

1.4. Trafodwyd y polisi hwn â'r undebau llafur a'r sefydliadau proffesiynol perthnasol ac maen nhw'n ei gefnogi.

## 2. NODAU A CHWMPAS Y POLISI HWN

2.1 Nod y polisi hwn yw:-

- eich annog i deimlo'n hyderus wrth godi pryderon difrifol a chwestiynu a gweithredu ar bryderon am arfer
- rhoi ffyrdd i chi o godi'r pryderon hyn a derbyn adborth ar unrhyw gamau a gymerir
- sicrhau eich bod yn derbyn ymateb i'ch pryderon a'ch bod yn ymwybodol o sut i fynd ar eu trywydd os nad ydych yn fodlon
- tawelu eich meddwl y cewch eich amddiffyn rhag dial neu erledigaeth os oes gennych gred resymol eich bod wedi gwneud unrhyw ddatgeliad er budd y cyhoedd

2.2 Bwriedir i'r Polisi Chwythu'r Chwiban gwmpasu pryderon difrifol fel:

- ymddygiad sy'n drosedd neu sy'n torri'r gyfraith
- camweinyddiad cyfiawnder

- risgiau i iechyd a diogelwch, gan gynnwys risgiau i'r cyhoedd a defnyddwyr gwasanaethau, yn ogystal â chyflogeion eraill
- difrod i'r amgylchedd (e.e. tir, adeiladau, priffyrdd, dŵr, aer, gwastraff, ynni, trafnidiaeth neu gynefin naturiol)
- defnydd amhriodol neu anawdurdodedig o arian cyhoeddus neu adnoddau eraill
- twyll posibl, llygredd, llwgrwobrwyo ac osgoi treth
- cam-drin tuag at gleientiaid, cyflogeion, contractwyr neu'r cyhoedd
- arferion cyflogaeth anfoesegol (megis caethwasiaeth fodern neu fasnachu pobl)
- ymddygiad anfoesegol neu amhriodol arall neu
- cuddio unrhyw un o'r uchod yn fwriadol.

**Pwy all godi pryder dan y Polisi hwn?**

2.3 Mae'r Polisi'n berthnasol i:

- cyflogeion Cyngor Caerdydd
- cyflogeion contractwyr sy'n gweithio i'r Cyngor, er enghraifft, staff asiantaeth, adeiladwyr a gyrwyr
- cyflogeion cyflenwyr
- y rhai sy'n darparu gwasanaethau dan gontract neu gytundeb arall gyda'r Cyngor yn eu hadeiladau eu hunain, er enghraifft cartrefi gofal
- gweithwyr gwirfoddol sy'n gweithio gyda'r Cyngor.

2.4 **Staff contractwyr** - dylech adrodd am unrhyw bryderon i'r Cyngor dan y Polisi hwn os yw eich pryder yn perthyn yn bennaf neu'n gyfan gwbl i ymddygiad staff y Cyngor neu faterion y mae'r Cyngor yn gyfrifol amdanynt.

Fodd bynnag, os yw eich pryder yn ymwneud yn gyfan gwbl neu'n rhannol ag ymddygiad eich cyflogwr eich hun (contractwr y Cyngor) neu â materion o fewn ei gyfrifoldeb, yn gyntaf dylech ystyried adrodd am eich pryder i'ch cyflogwr eich hun (gan mai dyma yw'r ffordd symlaf o sicrhau eich bod wedi'ch diogelu'n gyfreithiol).

Os nad ydych yn teimlo eich bod yn gallu codi eich pryderon gyda'ch cyflogwr, mae'n bosibl y bydd yn briodol adrodd i rywun arall, fel y Cyngor, ac mae'n bosibl y byddwch wedi'ch diogelu'n gyfreithiol o hyd, os byddwch yn ymddwyn yn gyfrifol yn y ffyrdd a nodir yn ôl y gyfraith. Gall yr elusen annibynnol, Protect (Public Concern at Work gynt), y rhestrir ei manylion cyswllt yn y Rhestr Cysylltiadau Allanol ar ddiwedd y Polisi hwn, roi cyngor cyfrinachol ac ymarferol am ddim ar y ffordd orau o godi pryder a lleihau unrhyw risg i chi eich hun.

2.5 **Staff Ysgolion *** - Fel arfer dylech godi eich pryderon gyda'ch rheolwr llinell, y pennaeth, Cadeirydd y Llywodraethwyr neu lywodraethwr ysgol arall yn eich ysgol. Hefyd dylai fod gan eich ysgol ei Pholisi Chwythu'r Chwiban ei hun (y gallwch ofyn amdano gan eich pennaeth neu gan Gadeirydd y Llywodraethwyr), a dylech ddilyn y polisi hwnnw.

Os ydych yn teimlo na allwch godi eich pryderon yn eich ysgol, dylech eu codi gyda'r Cyngor (y Cyfarwyddwr Cynorthwyol, Addysg a Chynhwysiant, 02920 872700) Helen.Williams14@caerdydd.gov.uk neu sefydliad arall (gweler y Rhestr Cysylltiadau Allanol ar ddiwedd y Polisi hwn), os yw'n briodol. Mae'n bosibl hefyd y byddwch yn dymuno cael cyngor gan yr elusen annibynnol, Protect.

* DS Mae Polisi'r Cyngor yn berthnasol i staff sy'n gweithio yn yr Uned Cyfeirio Disgyblion.

**Nid yw'r polisi hwn yn berthnasol yn yr amgylchiadau canlynol:**

2.6 Cwynion

Os ydych yn gyflogai, mae gweithdrefnau cyfredol ar waith er mwyn eich galluogi i wneud achwyniad sy'n ymwneud â'ch cyflogaeth eich hun. Dylech bob amser ddefnyddio'r *Polisi Datrys* ar gyfer unrhyw gwynion sy'n ymwneud â'ch amgylchiadau personol neu gyflogaeth eich hun. Ni ddylid defnyddio'r Polisi Chwythu'r Chwiban gan unrhyw aelod o staff a allai fod yn anfodlon â chanlyniad yr achosion a gynhaliwyd yn briodol o dan y Polisi Datrys neu'r Polisi Disgyblu.

2.7 Ymddygiad Aelodau Etholedig

Dylid codi pryderon ynghylch ymddygiad Aelodau etholedig gyda Swyddog Monitro'r Cyngor (mae'r manylion cyswllt ar ddiwedd y Polisi hwn) yn unol â'r *Cod Ymddygiad Aelodau*. Bydd y Swyddog Monitro yn rhoi arweiniad a chyfeirio os yw'n briodol i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

2.8 Cwynion

Nid yw'r polisi hwn yn cymryd lle'r *Polisi Cwynion* corfforaethol sy'n ymwneud â mynd i'r afael â chwynion gan aelodau'r cyhoedd am wasanaethau'r Cyngor.

2.9 Gwasanaethau Eraill

Os oes gennych unrhyw bryderon am wasanaeth a ddarperir gan sefydliad arall ar ran y Cyngor dylech gysylltu â'r darparwr gwasanaeth yn y lle cyntaf. Mewn achosion pan fydd y Cyngor yn contractio gyda sefydliad preifat, mae'n bosibl y bydd yn briodol rhoi gwybod i Wasanaeth perthnasol y Cyngor. Mewn rhai achosion mae'n bosibl y bydd hefyd angen rhoi gwybod i'r sefydliad rheoleiddio priodol.

**Mae'n bosibl y bydd pryderon a godir dan y Polisi Chwythu'r Chwiban yn arwain at weithredu polisïau neu weithdrefnau eraill y Cyngor, mewn achosion fel:**

2.10 Pryderon am blant neu oedolion sy'n agored i niwed

(i) Os bydd unrhyw wybodaeth yn codi pryderon am niwed neu niwed posibl i unrhyw blentyn, dylid gwneud atgyfeiriad ar unwaith i Hyb Cyngor, Cymorth A Diogelwch Teuluoedd (CCDT)ar 029 2053 6490 neu, os yw y tu allan i oriau swyddfa, i'r Tîm Dyletswydd Argyfwng ar 029 2078 8570 lle bydd Gweithiwr Cymdeithasol profiadol yn sicrhau bod Gweithdrefnau Plant mewn Angen neu Amddiffyn Plant yn cael eu rhoi ar waith os bydd angen, ac yn rhoi unrhyw gyngor ac arweiniad gofynnol i chi.

(ii) Os bydd unrhyw wybodaeth yn codi pryderon am niwed neu niwed posibl i oedolyn sy'n agored i niwed, dylid rhoi gwybod am y pryderon hyn ar unwaith i'r Tîm Diogelu Oedolion ar 029 2233 0888 neu, os yw y tu allan i oriau swyddfa, i'r Tîm Dyletswydd Argyfwng ar 029 2078 8570 lle bydd Gweithiwr Cymdeithasol profiadol yn sicrhau bod unrhyw weithdrefnau priodol yn cael eu rhoi ar waith, ac yn rhoi unrhyw gyngor ac arweiniad gofynnol i chi.

**(iii) Os bydd gennych unrhyw bryderon am berygl uniongyrchol y mae angen ymateb brys arnynt neu os ydych yn credu bod trosedd yn cael ei chyflawni, dylech ffonio'r heddlu ar 101 neu 999. Ni ddylech byth oedi cyn cymryd camau brys i ddiogelu plentyn neu oedolyn sy'n agored i niwed.**

2.11 Materion disgyblu

Os bydd mater a godwyd yn arwain at gamau disgyblu, bydd *Polisi a Gweithdrefn Disgyblu* yn berthnasol.

2.12 Twyll neu Lygredd

Pan fydd amheuaeth o unrhyw dwyll, llygredd neu amhriodoldeb ariannol, ymchwilir i'ch pryderon yn unol â'r *Polisi Atal Twyll, Llwgrwobrwyo a Llygredd*.

2.13 Ar gyfer unrhyw bryderon yr ymdrinnir â nhw dan baragraffau 2.10, 2.11 a 2.12 uchod, mae'n bwysig nodi y byddwch yn gymwys o hyd i gael yr amddiffyniad a roddir i chwythwyr chwiban yn unol â thelerau'r Polisi hwn. Os eir i'r afael â'ch pryderon neu os ymchwilir iddynt dan bolisi neu weithdrefn wahanol – er enghraifft, gweithdrefnau amddiffyn plant – dylech gael gwybod am hyn ac os dymunwch, gallwch wirio bod eich adroddiad wedi'i gofnodi fel adroddiad chwythu'r chwiban dan warchodaeth y Polisi Chwythu'r Chwiban.

2.14 Os oes unrhyw amheuaeth ynghylch pa bolisi sy'n berthnasol, dylech ofyn am gyngor gan y Swyddog Monitro. Os oes unrhyw wrthdaro rhwng darpariaethau'r Polisi Chwythu'r Chwiban ac unrhyw bolisi neu weithdrefn berthnasol arall, bydd y Swyddog Monitro yn penderfynu pa rai ddylai fod yn drech.

## 3. AMDDIFFYN A DIOGELU YN ERBYN AFLONYDDU NEU ERLEDIGAETH

3.1 Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i arfer da a safonau uchel ac mae eisiau bod yn gefnogol i gyflogeion a phobl eraill y mae'r polisi hwn yn berthnasol iddynt.

### Eich hawliau cyfreithiol

3.2 Mae Deddf Datgelu Er Lles y Cyhoedd 1998 yn rhoi amddiffyniad cyfreithiol, dan rai amgylchiadau, i weithwyr sy'n gwneud datgeliadau er budd y cyhoedd (y cyfeirir atynt fel 'Datgeliadau Gwarchodedig'). Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn anghyfreithlon i'r Cyngor ddiswyddo unrhyw un neu ganiatáu iddo gael ei erlid ar y sail ei fod wedi gwneud datgeliad cyfreithlon priodol yn unol â'r Ddeddf.

3.3 Mae'r Cyngor yn cydnabod y gall y penderfyniad i adrodd am bryder fod yn un anodd ei wneud. Os yw'r hyn rydych yn ei ddweud yn wir, ni ddylai fod gennych unrhyw beth i'w ofni oherwydd byddwch yn gwneud eich dyletswydd i'ch cyflogwr ac i'r rhai rydych yn darparu gwasanaeth iddynt.

3.4 Ni ddylai chwythwyr chwiban ddioddef unrhyw driniaeth niweidiol o ganlyniad i godi pryder. Mae triniaeth niweidiol yn cynnwys diswyddo, camau disgyblu, bygythiadau neu driniaeth anffafriol arall sy'n gysylltiedig â chodi pryder. Os ydych yn credu eich bod wedi dioddef unrhyw driniaeth o'r fath, dylech roi gwybod i'r Swyddog Monitro ar unwaith. Ni fydd y Cyngor yn goddef unrhyw aflonyddu nac erledigaeth (gan gynnwys rhoi pwysau anffurfiol) a bydd yn cymryd camau priodol, gan gynnwys camau disgyblu os bydd angen, i'ch amddiffyn pan fyddwch yn codi pryder er budd y cyhoedd.

### Cymorth i chi

3.5 Drwy gydol y broses hon:

- rhoddir cefnogaeth lawn i chi gan yr Uwch Reolwyr
- caiff eich pryderon eu cymryd o ddifrif
- gallwch godi eich pryderon yn Gymraeg, os dymunwch; a
- bydd y Cyngor yn gwneud popeth y gall ei wneud i'ch helpu drwy gydol yr ymchwiliad e.e. darparu gwasanaethau eirioli, cyfieithwyr ar y pryd, gwneud addasiadau rhesymol i gefnogi cyflogeion anabl ac ati

3.6 Os bydd yn briodol, bydd y Cyngor yn ystyried eich adleoli dros dro am gyfnod yr ymchwiliad.

3.7 Ar gyfer y rhai nad ydynt yn gyflogeion y Cyngor, bydd y Cyngor yn ceisio rhoi cyngor a chefnogaeth briodol lle bynnag y bo'n bosibl.

3.8 Ni fydd unrhyw ymchwiliad i honiadau o gamarfer posibl yn dylanwadu ar weithdrefnau eraill ac ni fydd y rhain yn dylanwadu ar yr ymchwiliad. Gall y gweithdrefnau hyn gynnwys ymchwiliadau a gwrandawiadau dan y gweithdrefnau disgyblu, salwch, galluedd, dileu swyddi neu unrhyw weithdrefnau diswyddo eraill sy'n effeithio arnoch eisoes neu a allai effeithio arnoch yn y dyfodol.

## 4. CYFRINACHEDD

4.1 Caiff pob pryder yr adroddir amdano er budd y cyhoedd ei drin yn gyfrinachol ac ni chaiff eich manylion adnabod eu datgelu heb eich cydsyniad, heblaw bod gofyn am ddatgelu yn ôl y gyfraith neu ei fod yn angenrheidiol er mwyn i'r Cyngor fynd i'r afael â'r pryderon. Ym mhob achos, bydd y Cyngor yn ceisio cyfyngu ar nifer y bobl sy'n cael gwybod am hunaniaeth chwythwr chwiban, ar sail angen gwybod. Bydd unrhyw bryderon sydd gennych ynglŷn â datgelu'ch hunaniaeth yn cael eu trafod gyda chi. Dylech sylweddoli efallai na fydd yn bosibl ymchwilio i'ch pryderon yn llawn heb ddatgelu ffynhonnell y wybodaeth, a gellid gofyn i chi fod yn dyst a rhoi datganiad fel rhan o'r dystiolaeth ar yr adeg briodol.

## 5. HONIADAU DIENW

5.1 Mae'r Polisi hwn yn eich annog i roi eich enw ar eich honiad lle bynnag y bo'n bosibl. Mae pryderon a fynegir yn ddienw yn llawer llai pwerus ac yn atal y cyfle i godi unrhyw ymholiadau ynghylch yr honiad ond byddant yn cael eu hystyried yn ôl disgresiwn y Cyngor. Dylid cofio, lle bynnag y bo'n bosibl, y cedwir cyfrinachedd.

5.2 Wrth arfer y disgresiwn hwn, byddai'r ffactorau i'w hystyried yn cynnwys:

- difrifoldeb y materion a godir;
- hygrededd y pryder; a'r
- tebygolrwydd o gadarnhau'r honiad o ffynonellau y gellir eu priodoli.

5.3 Byddai'n well gan y Cyngor pa baech yn mynegi eich pryderon yn ddienw, os bydd angen, yn hytrach nag aros yn dawel am gamarfer yn y Cyngor.

## 6. HONIADAU ANWIR

6.1 Os byddwch yn gwneud honiad er budd y cyhoedd, ond na chaiff ei gadarnhau gan yr ymchwiliad, ni chymerir unrhyw gamau yn eich erbyn. Fodd bynnag, os byddwch yn gwneud honiad anwir yn wamal, yn faleisus neu er budd personol, mae'n bosibl y caiff camau disgyblu neu gamau priodol eraill eu cymryd yn eich erbyn.

## DIOGELU DATA

7.1 Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i sicrhau bod gwybodaeth bersonol yn cael ei defnyddio'n ddiogel ac yn briodol yn unol ag egwyddorion y Ddeddf Diogelu Data ac mae wedi mabwysiadu Polisi a Gweithdrefn Diogelu Data at y diben hwn. Os bydd unrhyw bryderon am brosesu data personol, dylech gyfeirio at y Polisi a Gweithdrefn Diogelu Data a cheisio cyngor gan Reolwr Llywodraethu Gwybodaeth y Cyngor, os bydd angen.

## SUT I GODI PRYDER

8.1 Fel cam cyntaf, fel arfer dylech godi pryderon gyda'ch rheolwr uniongyrchol neu rywun ar y lefel reoli nesaf. Mewn rhai achosion, mae'n bosibl y bydd yn fwy priodol codi pryderon gyda rhywun uwch neu'n uniongyrchol gydag un o'r cysylltiadau mewnol a restrir ar ddiwedd y ddogfen hon. Mae hyn, fodd bynnag, yn dibynnu ar ddifrifoldeb a sensitifrwydd y materion dan sylw a phwy sy'n cael ei amau o'r camarfer. Er enghraifft, os credwch fod eich rheolwyr yn rhan o hyn, dylech fynd at y Prif Weithredwr, y Swyddog Adran 151, y Swyddog Monitro neu'r Rheolwr Archwilio. Os bydd unrhyw wybodaeth yn codi pryderon am niwed neu niwed posibl i blant neu oedolion sy'n agored i niwed, dylid adrodd am y pryderon hyn ar unwaith i'r Hyb Cyngor, Cymorth A Diogelwch Teuluoedd (CCDT) ar 029 2053 6490 neu i'r Tîm Diogelu Oedolion ar 029 2233 0888 fel sy'n briodol, neu os yw y tu allan i oriau i'r Tîm Dyletswydd Argyfwng ar 029 2078 8570.

8.2 Gellir codi pryderon ar lafar neu'n ysgrifenedig a dylent gynnwys:

- cefndir a hanes y pryder (gan roi dyddiadau perthnasol); a'r
- rheswm pam mae gennych bryder arbennig am y sefyllfa.

Bwriad Ffurflen Adroddiad Chwythu'r Chwiban y Cyngor yw eich cynorthwyo i roi'r holl wybodaeth berthnasol i ni ystyried eich pryder ac anogir ei defnydd (dogfen CIS 4.C.241).

8.3 Os codir eich pryder ar lafar, cymerir nodyn ysgrifenedig yn unol â'r fformat uchod.

8.4 Po gyntaf y mynegwch y pryder, yr hawsaf y bydd i gymryd camau.

8.5 Er nad oes disgwyl i chi brofi bod eich honiad yn wir, bydd angen i chi ddangos bod gennych gred resymol am y camweddau rydych chi'n adrodd amdanynt (hyd yn oed os yw'r gred honno'n digwydd bod yn anghywir yn y pen draw).

8.6 Mae'n bosibl cael cyngor neu arweiniad am sut i fynd ar drywydd materion sy'n peri pryder gan eich rheolwr llinell neu'r bobl a enwir yn y Rhestr Cysylltiadau Mewnol ar ddiwedd y ddogfen hon.

8.7 Efallai yr hoffech ystyried trafod eich pryder â chydweithiwr yn gyntaf ac mae'n bosibl y byddwch yn ei weld yn haws codi'r mater os oes dau (neu fwy) ohonoch sydd wedi cael yr un profiad neu sydd â'r un pryderon.

8.8 Efallai yr hoffech gael cymorth a chefnogaeth gan eich swyddog undeb llafur lleol; a chewch wahodd eich cynrychiolydd undeb llafur neu gydweithiwr i fod yn bresennol yn ystod unrhyw gyfarfodydd neu gyfweliadau mewn cysylltiad â'r pryderon rydych wedi'u codi.

## 9. SUT BYDD Y CYNGOR YN YMATEB

9.1 Mae'n rhaid i'r person rydych yn adrodd am eich pryderon iddo dan y polisi hwn adrodd amdanynt ei hun i'r Swyddog Monitro o fewn pum niwrnod gwaith.

9.2 Bydd y Cyngor yn ymateb i'ch pryderon. Cofiwch nad yw rhoi prawf ar eich pryderon yr un peth â'u derbyn neu eu gwrthod.

9.3 Lle y bo'n briodol, mae'n bosibl y bydd y materion a godwyd yn arwain at y canlynol:

- ymchwiliad gan y rheolwyr neu drwy archwiliad mewnol neu drwy'r broses ddisgyblu
- gweithredu polisïau neu weithdrefnau eraill, fel amddiffyn plant
- cyfeirio'r pryderon at yr heddlu
- cyfeirio'r pryderon at Swyddfa Archwilio Cymru
- ffurfio testun ymchwiliad annibynnol.

9.4 Er mwyn amddiffyn unigolion a'r rhai a gyhuddir o gamweddau neu gamarfer posibl, bydd ymchwiliadau cychwynnol yn cael eu cynnal er mwyn penderfynu a yw ymchwiliad yn briodol ac os felly, ar ba ffurf y dylid cynnal hwnnw. Y brif egwyddor y bydd gan y Cyngor mewn golwg fydd budd y cyhoedd. Fel arfer caiff pryderon neu honiadau sy'n dod o fewn cwmpas gweithdrefnau penodol (er enghraifft, amddiffyn plant, oedolion sy'n agored i niwed, materion gwahaniaethau neu aflonyddu) eu cyfeirio i'w hystyried dan y gweithdrefnau hynny.

9.5 Gall rhai pryderon gael eu datrys drwy gytuno ar gamau gweithredu heb yr angen am ymchwiliad. Os bydd angen camau brys, caiff y rhain eu cymryd cyn cynnal unrhyw ymchwiliad.

9.6 O fewn deg diwrnod gwaith i bryder gael ei godi, bydd y Swyddog Monitro yn ysgrifennu atoch:

- i gydnabod bod y pryder wedi cael ei dderbyn
- i ddangos sut mae'r Cyngor yn bwriadu ymdrin â'r mater
- i roi amcangyfrif o ba mor hir y bydd yn cymryd i roi ymateb terfynol
- i ddweud wrthych a oes unrhyw ymchwiliadau cychwynnol wedi cael eu gwneud
- i roi gwybodaeth i chi am gymorth sydd ar gael i chi, ac

- i ddweud wrthych a fydd rhagor o ymchwiliadau'n cael eu cynnal ac os na fydd, pam.

9.7 Os bydd ymchwiliad yn cael ei gynnal, bydd y Cyngor yn penodi swyddog ymchwilio priodol, a byddwch yn cael gwybod am ei enw a'i swydd. Bydd y swyddog ymchwilio yn adrodd canfyddiadau ei ymchwiliad ac unrhyw argymhellion o ran newid i uwch swyddog sy'n gyfrifol am y gwasanaeth dan sylw (nad yw'n ymwneud â'r pryderon a godwyd mewn unrhyw ffordd), a fydd yna'n penderfynu pa gamau, os o gwbl, y dylid eu cymryd ar y mater gan hysbysu'r Swyddog Monitro o'i benderfyniad.

9.8 Bydd faint o gysylltiad fydd rhyngoch chi a'r swyddogion sy'n ystyried y materion yn dibynnu ar natur y materion a godwyd, yr anawsterau posibl sydd ynghlwm ac eglurder y wybodaeth a ddarparwyd. Os bydd angen, bydd y Cyngor yn ceisio rhagor o wybodaeth gennych.

9.9 Pan fydd unrhyw gyfarfod yn cael ei drefnu, oddi ar y safle os dymunwch, gall cynrychiolydd undeb llafur neu gydweithiwr ddod gyda chi.

9.10 Bydd y Cyngor yn cymryd camau i leihau unrhyw anawsterau y gallech eu profi yn sgil codi pryder. Er enghraifft, os bydd gofyn i chi roi tystiolaeth mewn achos troseddol neu ddisgyblu, bydd y Cyngor yn trefnu i chi dderbyn cyngor am y weithdrefn.

9.11 Mae'r Cyngor yn derbyn bod angen i chi gael sicrwydd yr ymdriniwyd â'r mater yn briodol. Felly, yn amodol ar gyfyngiadau cyfreithiol, bydd y Swyddog Monitro yn eich hysbysu o ganlyniad unrhyw ymchwiliad ac yn rhoi gwybod i chi a ddylid cadw'r wybodaeth honno'n gyfrinachol.

## 10. HYFFORDDIANT, MONITRO AC ADOLYGU

10.1 Mae'r Swyddog Monitro yn gyfrifol am gynnal a gweithredu'r polisi hwn. Bydd gwybodaeth ac unrhyw hyfforddiant angenrheidiol yn ymwneud â chyfraith chwythu'r chwiban, y polisi hwn ac unrhyw weithdrefnau cysylltiedig yn cael eu hystyried gan y Swyddog Monitro yn unol ag anghenion a gofynion holl adrannau'r Cyngor.

10.2 Mae'r Swyddog Monitro'n cadw cofnod o bryderon a godwyd dan y Polisi hwn, yn monitro cynnydd yr ymchwiliadau ac yn cofnodi'r canlyniadau (ar ffurf na fydd yn peryglu eich cyfrinachedd); a bydd yn adrodd yn ôl yr angen i'r Pwyllgor Safonau a Moeseg.

10.3 Mae'r Pwyllgor Safonau a Moeseg wedi'i awdurdodi ar ran y Cyngor i oruchwylio ac i fonitro gweithdrefnau Chwythu'r Chwiban y Cyngor ac i ystyried unrhyw faterion moesegol sy'n codi. Bydd y Pwyllgor yn adolygu'r polisi hwn yn flynyddol a'r ffordd y caiff ei weithredu, ar sail adborth chwythwyr chwiban, a bydd yn gwneud unrhyw ddiwygiadau

sydd eu hangen, heblaw am fân ddiwygiadau a diweddariadau a gaiff eu gwneud o bosibl gan y Swyddog Monitro.

## 11. SUT Y GELLIR MYND Â'R MATER YMHELLACH

11.1 Nod y polisi hwn yw rhoi ffordd o godi pryderon o fewn y Cyngor. Mae'r Cyngor yn credu mai dyma'r ffordd fwyaf effeithiol o fynd i'r afael â'ch pryderon ac yn gobeithio y byddwch yn fodlon ar unrhyw gamau a gymerir. Os nad ydych yn fodlon, ac os ydych yn teimlo ei bod yn iawn mynd â'r mater y tu allan i'r Cyngor, rhoddir rhagor o bwyntiau cyswllt yn y Rhestr Cysylltiadau Allanol ar ddiwedd y Polisi hwn.

11.2 Os byddwch yn codi eich pryderon y tu allan i'r Cyngor gyda 'Rheoleiddiwr Rhagnodedig' (gweler y Rhestr Cysylltiadau Allanol), byddwch yn gymwys o hyd i gael eich amddiffyn yn statudol gan y Ddeddf Datgelu Er Lles y Cyhoedd *os* ydych yn credu yn rhesymol eich bod wedi gweithredu er budd y cyhoedd, bod y wybodaeth / honiadau yn wir a bod y mater o fewn cyfrifoldeb y Rheoleiddiwr hwnnw. Os byddwch yn gwneud datgeliad ehangach, er enghraifft, i'r cyfryngau, mae perygl efallai na fyddwch yn cael eich diogelu'n statudol, gan ddibynnu ar a oes achos dilys i fynd yn ehangach neu beidio.

11.3 Os byddwch yn mynd â'r mater y tu allan i'r Cyngor, bydd angen hefyd i chi sicrhau nad ydych yn datgelu gwybodaeth a ddylai gael ei chadw'n gyfrinachol yn briodol. Bydd angen i chi gadarnhau hyn gyda'r person neu'r sefydliad rydych yn penderfynu cysylltu ag ef. Fodd bynnag, dylech nodi, yn ôl y gyfraith, na ellir eich atal rhag gwneud Datgeliad Gwarchodedig (datgeliad cyfreithlon priodol dan y Ddeddf Datgelu Er Lles y Cyhoedd) gan unrhyw gymal cyfrinachedd mewn cytundeb rhyngoch chi a'ch cyflogwr (er enghraifft, mewn Cytundeb Setliad), a bydd unrhyw gymal o'r fath yn gyfreithiol annilys.

11.4 Dylech gael cyngor, er enghraifft, gan yr elusen annibynnol Protect (Public Concern at Work gynt, y rhestrir ei manylion cyswllt yn y Rhestr Cysylltiadau Allanol isod), cyn codi eich pryderon y tu allan i'r Cyngor i sicrhau y cewch eich diogelu.

**RHESTR CYSYLLTIADAU MEWNOL**

Gellir cael cyngor neu arweiniad am sut i fynd ar drywydd materion sy'n peri pryder gan unrhyw un o'r bobl a enwir isod:

| | | |
|---|---|---|
| Y brif egwyddor y bydd gan y Cyngor mewn golwg fydd budd y cyhoedd. | | Paul.Orders@caerdydd.gov.uk |
| Swyddog Monitro | | SwyddogMonitro@caerdydd.gov.uk |
| Cyfarwyddwr Corfforaethol, Adnoddau a Swyddog Adran 151 | | Christopher.Lee@caerdydd.gov.uk |
| Rheolwr Archwilio | | CPyke@caerdydd.gov.uk |
| Pwyllgor Safonau a Moeseg | Jason Bartlett, Cadeirydd (Annibynnol) - Gellir cysylltu ag ef drwy'r Gwasanaethau Pwyllgor | Jason.Bartlett@caerdydd.gov.uk |
| Ar gyfer adroddiadau am dwyll, llwgrwobrwyo neu amhriodoldeb ariannol arall | twyll@caerdydd.gov.uk | Defnyddiwch yr e-bost |

Unrhyw Brif Swyddog

Eich swyddog undeb llafur lleol:
Unison cardiffunison@gmail.com 02920 872580
Unite SwanseaOffice.Messages@unitetheunion.org 02920 447800
GMB Info@gmb.org.uk
NEU cymru.wales@neu.org.uk 02920 491818
Cymdeithas Genedlaethol yr Ysgolfeistri ac Undeb yr Athrawesau rc-wales-cymru@mail.nasuwt.org.uk 02920 546080

Dylid adrodd am bryderon am niwed neu niwed posibl i naill ai plant neu oedolion sy'n agored i niwed ar unwaith i'r:

| | |
|---|---|
| Hyb Cyngor, Cymorth A Diogelwch Teuluoedd (CCDT) | 029 2053 6490 |
| Tîm Diogelu Oedolion | 029 2233 0888 |
| Tîm Dyletswydd Argyfwng (y tu allan i oriau arferol) | 029 2078 8570 |
| Rheolwr Gweithredol, Diogelu Plant ac Oedolion sy'n Agored i Niwed | 029 2087 3830 |

Gellir trafod pryderon ynglŷn â phrosesu data personol â'r Rheolwr Llywodraethu Gwybodaeth, y gellir cysylltu ag ef ar 02920 873317

**RHESTR CYSYLLTIADAU ALLANOL**

Os ydych wedi defnyddio'r gweithdrefnau mewnol priodol ac nad ydych yn fodlon ar unrhyw gamau a gymerwyd ynglŷn â'ch pryderon ac os ydych yn teimlo ei fod yn iawn mynd â'r materion y tu allan i'r Cyngor, mae pwyntiau cyswllt ychwanegol ar gael isod. Pwysleisir nad yw'r rhestr isod yn gynhwysfawr ac mae croeso i chi gysylltu ag unrhyw sefydliad rydych yn teimlo y bydd yn gallu ymdrin yn briodol â'ch pryderon.

**Rheoleiddwyr Rhagnodedig**
(Gweler paragraff 11.2 y Polisi)

Mae rhestr lawn wedi'i chyhoeddi ar-lein yma: Chwythu'r chwiban: rhestr o bobl a chyrff rhagnodedig - GOV.UK ac ar gael gan yr elusen annibynnol, Protect (manylion cyswllt isod), ac sy'n cynnwys y canlynol:

| | |
|---|---|
| Archwilydd Cyffredinol Cymru | 029 2032 0500 |
| Llinell Gymorth Chwythu'r Chwiban Swyddfa Archwilio Cymru | 02920 320 522 |
| Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru | 0300 790 0203 |
| Asiantaeth yr Amgylchedd | 03708 506 506 neu 0800 807060 (llinell 24 awr) |
| Y Gweithgor Iechyd a Diogelwch | 0845 300 9923 (digwyddiadau angheuol a difrifol yn unig) neu www.hse.gov.uk |
| Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru | 0300 7900 126 |
| Comisiynydd Plant Cymru | |
| Asiantaeth Safonau Bwyd | 0330 332 7149 walesadminteam@food.gov.uk |
| Comisiynydd Gwybodaeth | 0303 123 1113 https://ico.org.uk/global/contact-us/contact-us-public/ |
| Y Gymdeithas Genedlaethol er Atal Creulondeb i Blant (NSPCC) | 0808 800 5000 |

**Arall**

| | |
|---|---|
| Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru | 03442 640 670 |
| Age Cymru | 0300 303 4498 |
| Cyrff proffesiynol e.e. Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (Cymru) | |

| | |
|---|---|
| Heddlu De Cymru | 101 neu 999 (argyfyngau yn unig) |
| Eich Canolfan Cyngor ar Bopeth leol | Cyngor ar Bopeth neu Advicelink Cymru - Cyngor ar Bopeth neu 0800 702 2020 |

Os nad ydych yn siŵr a ddylech ddefnyddio'r weithdrefn hon neu ynghylch sut i'w defnyddio, neu os hoffech gael cyngor annibynnol, gallwch gysylltu â'r elusen Protect (Public Concern at Work gynt) ar 020 3117 2520.  Gall ei chyfreithwyr roi cyngor cyfrinachol am ddim i chi ar unrhyw adeg ar sut i godi pryder am gamymddwyn difrifol yn y gwaith.